



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018, Canolfan Adnoddau'r
Gwasanaeth Ambiwlans a Tân Wrecsam

Yn bresennol:

Aelodau Craidd:

Lyndsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd)
Clare Field	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Cyngorydd Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gary Doherty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Angela Tinkler	Iechyd Cyhoeddus Cymru
John Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Mark Pearce	Heddlu Gogledd Cymru
Sue Price	Coleg Cambria
Nina Ruddle	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Jason Davenport	CEM Berwyn

Cyfranogwyr Cefnogi:

Helen Odunaiya	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ymddiheuriadau:

Judith McGaw	Gwasanaeth Prawf
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf
Jon Falcus	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cadeirydd PDB1)
Rus Favager	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Lee Robinson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cadeirydd PDB3)

Cam
Gweithredu

1	Croeso a Chyflwyniadau	
	Croesawodd LR bawb i gyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Wrecsam a chyflwynodd pawb eu hunain.	
2	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2016	
	Fe atgoffodd LR y Bwrdd mai hwn oedd cyfarfod ffurfiol diwethaf y Bwrdd gan fod cyfarfod mis Rhagfyr wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithdy BGC a hwyluswyd	

	gan Dr. Alan Netherwood. Cymeradwywyd y cofnodion, i gael eu cyhoeddi ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.	HO
3	Sylwadau o weithdy BGC mis Rhagfyr	
3.1	Cytunwyd bod y gweithdy BGC yn ymarfer defnyddiol, gan helpu'r BGC i ganolbwyntio ar y camau nesaf iddynt fel partneriaeth a'i fod yn darparu her i sefydliadau unigol ac ar gyfer sefydliadau unigol.	
3.2	Cytunwyd y gellir cynnal sesiwn debyg eto yn y dyfodol, gan ei fod yn bwysig bod y Bwrdd yn herio ac yn adolygu. Gall y bartneriaeth ystyried gwneud pethau'n wahanol y tro nesaf, e.e. Her Cyfoedion Rhanbarthol.	
3.3	Dylid ystyried rôl statudol Craffu CBSW hefyd.	
3.4	Cytunwyd y dylai hyn gael ei drafod ar Lefel Ranbarthol gan grŵp Swyddogion Cefnogi BGC Gogledd Cymru.	HO
4	Cynllun Lles (Terfynol)	
4.1	Diolchodd HO i aelodau'r Bwrdd am eu sylwadau ar fersiwn drafft y cynllun lles a ddosbarthwyd ym mis Ionawr a Chwefror. Mae bellach wedi cael ei gynnwys yn y cynllun terfynol a gafodd ei ddosbarthu i gael sylwadau.	
4.2	Awgrymodd SS bod arolwg yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cynllun lles i weld pwy sydd wedi darllen y cynllun ac i gael gwybod beth yw eu barn. Gellir ychwanegu hyn gan ddefnyddio Eich Llais Wrecsam.	HO
4.3	Awgrymodd HJ diagram syml i ddangos sut bydd y Byrddau amrywiol yn cydweithio.	HO
4.4	Cytunwyd hefyd ar fersiwn fer a chryno fel ychwanegiad defnyddiol. Fe awgrymodd CF a NR gysylltiadau er mwyn bwrw ymlaen â hyn.	CF/ NR/ HO
4.5	Bydd angen gwneud mân newidiadau i'r fersiwn derfynol a fydd yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn iddynt eu cyflwyno i'w Byrddau i gael cymeradwyaeth.	HO
5	Strwythurau Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	
5.1	Cyflwynodd HO yr adroddiad oedd yn disgrifio beth fydd y Byrddau cefnogi er mwyn symud ymlaen i gyfnod cyflenwi'r cynllun lles.	
5.2	Dywedodd HJ y dylai cyfarfodydd BGC adael i bobl oedd eisiau siarad Cymraeg yn y cyfarfod wneud hynny.	HO
5.3	Cynigiodd NR gymorth Prifysgol Glyndŵr i gefnogi "Bwrdd Partneriaeth Iechyd Da".	RS / NR
5.4	Cytunwyd bod hwn yn gyfle i adolygu'r Dirwedd Partneriaeth eto yn Wrecsam er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Gallai hwn fod yn ddarn o waith i'r grŵp MAT.	LR
5.5	Dylid anfon unrhyw sylwadau pellach am lawlyfr llywodraethu'r fframwaith at HO i'w cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y BGC (y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol).	Pawb
5.6	Gofynnodd RS sut mae'r "Bwrdd Partneriaeth Iechyd Da" yn cysylltu i Grŵp Iechyd Gogledd Orllewin Cymru a bydd yn edrych ar hyn y tu allan i gyfarfod y BGC.	RS
5.7	Rhoddodd SP ac AT ddiweddariad i'r Bwrdd am eu paratodau i gadeirio byrddau "Cychwyn Iach" a "Dysgu Gydol Bywyd". Mae'r ddau yn edrych ar y gwaith presennol i sicrhau y gall byrddau gyflenwi'r amcanion yn y cynllun lles. Mae'r aelodaeth yn cael ei ystyried a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o drawstoriad o themâu sef: tlodi, cydraddoldeb, y Gymraeg a newid hinsawdd. Bydd y byrddau yma'n cyfarfod cyn cyfarfod BGC bob chwarter er mwyn gallu adrodd yn ôl i'r BGC.	SP ac AT
6	Sylfaeni ar gyfer Modiwl Arweinyddiaeth Gyhoeddus	
6.1	Cyflwynodd NR yr eitem hon, cwrs byr, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, ar y 5 ffordd o weithio i gefnogi dysgu i feddwl yn wahanol a chydweithio i fynd i'r afael â materion cymhleth. Roedd diddordeb ymysg pob aelod o'r BGC i ddysgu mwy	

6.2	am y modiwl. Er mwyn i'r BGC wybod a oedd hyn yn rhywbeth y gallant ei gefnogi, cytunodd y bwrdd eu bod angen dysgu mwy amdano er mwyn targedu staff perthnasol a sut y byddai'n cyd-fynd â hyfforddiant arweinyddiaeth presennol. Pob aelod o'r BGC i gasglu barn o'u hadrannau hyfforddi eu hunain.	Pawb
6.3	NR i adrodd yn ôl i'r BGC am gynnydd y sesiynau peilot sy'n cael eu cynllunio ar gyfer Sir y Fflint ar hyn o bryd.	NR
6.4	NR i drefnu sesiwn BGC estynedig er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i'r BGC am y modiwl.	NR / HO
7	Protocol Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	
7.1	Cafodd y protocol craffu drafft rhwng BGC Wrecsam a Phwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau Wrecsam ei ddsbarthu i gael barn. Dylid anfon unrhyw newidiadau pellach at HO cyn iddo gael ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau Wrecsam ddiwedd mis Mawrth.	Pawb
7.2	Fe arweiniodd hyn at drafodaeth ehangach ynghylch sut i sicrhau bod y broses craffu yn ystyrlon ac yn gallu cefnogi'r BGC i ddatblygu (yn unol ag eitem 3 uchod). CF a HJ i gymryd hyn i'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, ac Adnoddau Wrecsam i'w ystyried.	CF / HJ
7.3	Dylai hyn gael ei ystyried ar sail ranbarthol hefyd. I gael ei drafod yng ngrŵp Swyddog BGC Gogledd Cymru.	HO
8	Cais gan Adran Gwaith a Phensiynau i ymuno â BGC Wrecsam	
8.1	Fe soniodd LR bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi gofyn i gael ymuno â BGC Wrecsam. Cytunwyd y gallant ymuno â'r BGC gan y byddant yn ychwanegu gwerth i'n hamcanion lles ac efallai y byddant yn dymuno cefnogi'r byrddau lles y mae'r BGC yn eu sefydlu.	HO
8.2	Bydd y llawlyfr llywodraethu yn sôn sut mae ceisiadau i ymuno â'r BGC yn cael eu rheoli.	HO
9	Cytuno ar eitemau i gael eu cyhoeddi ar wefan BGC	
9.1	Cytunwyd y dylai hyn fod yn faes i'w drafod ar sail gogledd Cymru er mwyn i ni fod yn gyson.	HO
9.2	Rhagor o waith i ddarparu "datganiad" byr ar ôl cyfarfodydd BGC.	LR / HO
10	Unrhyw Fater Arall	
10.1	Mae Tŷ Pawb yn agor fis Ebrill. Fe awgrymodd HO bod y BGC yn cynnal eu cyfarfod nesaf yn y ganolfan ac yn cael taith fer o'i amgylch i weld beth sydd ar gael yno.	HO

Nodwch ddyddiadau ar gyfer Cyfarfodydd 2018:

14.06.18	Rhwng 10am a 12pm	Tŷ Pawb, Stiwdio Ddysgu*
13.09.18	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam
13.12.18	Rhwng 10am a 12pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwllans Wrecsam

*A thaith o amgylch Tŷ Pawb rhwng 9.30 a 10.00am (cwrdd yn y dderbynfa)